Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Hooson
# Heol Caradoc
# Rhosllanerchrugog
# Wrexham
# LL14 2DN

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2011

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Gymraeg i Saesneg)**



**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Ysgol gynradd ddwyieithog ddynodedig yw Ysgol ID Hooson. Mae'r ysgol wedi ei lleoli ym mhentref Rhosllannerchrugog ac fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Wrecsam. Ar hyn o bryd mae cyfanswm o 269 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol gan gynnwys 45 o blant meithrin a dderbyniwyd yn y mis Medi yn dilyn eu trydydd pen-blwydd. Mae'r niferoedd disgyblion wedi cynyddu yn sylweddol ers yr arolygiad diwethaf a rhagwelir parhad yn y cynnydd hwn i'r dyfodol.

Symudodd yr ysgol i safle ac adeilad newydd ym Medi 2007 a phenodwyd Pennaeth newydd ym Medi 2008.

Daw 31% o'r disgyblion o gartrefi ble y siaredir y Gymraeg yn iaith gyntaf a'r gweddill o gartrefi ble mae'r Saesneg yn brif iaith cyfathrebu. Cymraeg yw prif gyfrwng cyfathrebu a dysgu'r ysgol. Cynrychiolir amrywiaeth o gefndiroedd cymdeithasol ac adlewyrchir ystod lawn o allu. Deg y cant o ddisgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim ac mae'r ffigur yma yn is na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol. Dynodir 15% o ddisgyblion a chanddynt anghenion addysgol arbennig gyda phedwar disgybl ar ddatganiad.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Hooson yw £3,248 sy'n cymharu gydag uchafswm o £9,122 ac isafswm o £2,734 ar gyfer ysgolion cynradd yn Wrecsam. Yr ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl 32 uchaf o'r 62 ysgol gynradd yn Wrecsam.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn ystod tymor yr Haf 2005.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r ysgol hon yn dda oherwydd:

- bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol ac yn cyflawni safonau da yn y medrau allweddol ar draws y cwricwlwm;
- llwyddiant yr ysgol mewn datblygu dwyieithrwydd o oed cynnar;
- bod y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol ychwanegol yn rhagoriaeth;
- ei bod yn cynnwys ystod eang o brofiadau sy'n atgyfnerthu ac ysgogi'r dysgu; a
- bod yna ethos gofalgar Cymreig sy'n sicrhau fod bron bob disgybl yn mwynhau dysgu ac yn teimlo'n ddiogel.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod gan y pennaeth adnabyddiaeth dda iawn o'r ysgol a gweledigaeth glir ynglŷn â datblygu'r ysgol i'r dyfodol;
- bod y llywodraethwyr a'r tîm rheoli yn cyd-weithio mewn partneriaeth hefo'r Pennaeth er mwyn gwireddu ei weledigaeth; a
- bod yr ysgol wedi adnabod agweddau penodol i'w datblygu i'r dyfodol sydd ar waith yn barod.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

A1 sicrhau bod cysondeb yn y ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion mwyaf galluog;

A2 barhau i fynd i'r afael â gwella cyrhaeddiad disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol;

A3 rhannu arfer dda o safbwynt yr addysgu ar draws yr ysgol; a

A4 datblygu ymhellach rolau'r dirprwy a'r tîm rheoli yn y broses o weithredu strategaethau ar gyfer codi safonau dysgwyr.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro gweithrediad y cynllun ac yn adrodd i Estyn ar ymdrechion yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae data'r Awdurdod Lleol yn dangos fod lefel sgiliau sylfaenol y plant ar fynediad i'r meithrin yn is na lefel yr awdurdod. Y prif reswm am hyn yw bod y plant yn cael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg a gan fod tua 70% yn ddi-gymraeg ar fynediad yn naturiol ddigon mae'r canlyniadau yn isel. Fodd bynnag, mae canlyniadau asesiadau sylfaen o fewn y cyfnod derbyn yn dangos cynnydd sylweddol dros fyr amser yn arbennig mewn llafaredd.

Mae bron bob disgybl ar draws yr ysgol yn gweithio'n ddiwyd, yn cyflawni eu gwaith yn effeithiol ac yn arddangos cynnydd amlwg yn safon yr hyn a gyflawnir o fewn sesiynau dysgu a thros gyfnod o amser.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau'r athrawon ac ar gyfraniadau eu cyfoedion. Mae safon llafaredd yn dda iawn gyda bron pawb o oedran cynnar yn cyfathrebu'n hyderus.

Mae lefelau darllen y rhan fwyaf o'r disgyblion yn y ddwy iaith yn briodol i'w hoedran a'u gallu. Maent yn darllen ystod eang o ddeunyddiau gyda rhuglder ar draws y cwricwlwm. Mae datblygiad ysgrifennu ar draws gweithgareddau'r Cyfnod Sylfaen yn y Gymraeg ac ar draws y meysydd cwricwlaidd yng nghyfnod allweddol dau, yn y ddwy iaith yn dda. Er hyn mae gwallau sillafu yn ymddangos yng ngwaith lleiafrif o'r disgyblion ar adegau.

Mae disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cyflawni'n dda. Serch hynny, ar adegau mae'r disgyblion mwyaf galluog yn tan-gyflawni mewn rhai meysydd.

Mae disgyblion sydd â'r Gymraeg yn ail iaith iddynt yn ymdrin â'r iaith Gymraeg yn hyderus yn fuan iawn ar ôl dechrau yn yr ysgol ac mae'r cwricwlwm Cymreig yn greiddiol i waith ac ethos yr ysgol.

Mae canlyniadau diwedd cyfnod allweddol 1 ar gyfer 2010 yn uwch na'r awdurdod a Chymru mewn mathemateg ac o fewn y dangosydd pwnc craidd (y perfformiad disgwyliedig yn y Gymraeg neu'r Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth). Mae'r ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig o fewn y Gymraeg yn uwch na chyfartaledd Cymru ond yn is na chyfartaledd ysgolion yr Awdurdod ac ychydig yn is na'r awdurdod a Chymru mewn gwyddoniaeth. Mae hyn yn gosod yr ysgol ymysg y 50% isaf o ysgolion tebyg o ran y nifer o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim mewn Cymraeg a mathemateg ac o fewn y 25% isaf mewn gwyddoniaeth. Mae lefel perfformiad y disgyblion dros dair blynedd mewn llafaredd Cymraeg, yn well na'r awdurdod, y teulu a Chymru ac wedi bod felly dros y ddwy flynedd diwethaf ond ychydig yn is mewn ysgrifennu a darllen.

Yn gyffredinol ers 2008 gwelir ychydig o gynnydd ym mherfformiad yr ysgol.

Mae'r ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ar gyfer 2010 mewn Saesneg a mathemateg ychydig yn uwch na'r awdurdod a Chymru. Mae canlyniadau Cymraeg yr ysgol yn well na chyfartaledd Cymru ond yn is na'r awdurdod. Mae'r perfformiad mewn gwyddoniaeth cystal â chanran Cymru a'r awdurdod. Yn gyffredinol, anwastad yw'r perfformiad dros dreigl pedair blynedd, gyda'r cynnydd amlycaf o fewn Saesneg a mathemateg.

Mae'r ganran sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn llafaredd a darllen Saesneg yn uwch na chanran y teulu, yr Awdurdod a Chymru ac yn uwch na'r awdurdod a Chymru mewn ysgrifennu. Mae'r ganran sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn ysgrifennu Cymraeg yn uwch na'r teulu a Chymru ac yn uwch na Chymru mewn darllen a llafaredd.

Nid yw'r ysgol yn cymharu'n ffafriol gydag ysgolion tebyg o feincnodi yn erbyn ysgolion â chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol ymhlith y 25% uchaf mewn Saesneg, y 50% isaf mewn Cymraeg a mathemateg, ac ymhlith y 25% isaf mewn gwyddoniaeth. Llwyddwyd i godi canlyniadau Saesneg eleni ac i sicrhau cynnydd sylweddol mewn canlyniadau profion safonol mewn darllen, yn dilyn ffocws penodol ar godi safonau.

Mae'r ganran sy'n cyrraedd tu hwnt i'r lefel ddisgwyliedig eleni yn y ddau gyfnod allweddol yn is na'r awdurdod, teulu a Chymru ym mhob pwnc.

Nid oes patrwm arwyddocaol yn cyfeirio at unrhyw wahaniaethau rhwng canlyniadau merched a bechgyn dros gyfnod o bedair blynedd.

**Lles: Da**

Mae ymwybyddiaeth dda ymhlith y disgyblion o ofynion byw'n iach. Sbardunwyd eu diddordeb a'u dealltwriaeth gan agweddau perthnasol o'r cwricwlwm, dewisiadau bwyta priodol a gweithgareddau corfforol allgyrsiol niferus iawn.

Mae bron pob un o'r disgyblion a ymatebodd i'r holiadur yn datgan eu bod yn cael eu trin â pharch, eu bod yn hapus yn yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel. Mae ymddygiad bron pob disgybl yn dda yn eu gwersi ac ar adegau llai ffurfiol ym mywyd yr ysgol. Mae'r disgyblion yn troi'n hyderus at oedolion am gymorth. Hefyd mae swyddogion o blith y disgyblion sef 'Mets Gret' yn cynorthwyo disgyblion i gyd-chwarae ac yn cynnig cymorth i gyfoedion yn ôl yr angen.

Mae presenoldeb yn dda, sef oddeutu 94% sy'n uwch na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol. Caiff disgyblion cyfnod allweddol 2 lais cynyddol yn eu haddysg drwy drafod eu cynnydd a thrwy ddewis themâu wythnosol. Mae'r cyngor ysgol a'r cyngor eco yn lleisiau effeithiol i ddyheadau'r disgyblion ac ymatebwyd yn briodol i'w hawgrymiadau.

Mae bron bob un o ddisgyblion ar frig y Cyfnod Sylfaen yn datblygu yn briodol tuag at ddod yn ddysgwyr annibynnol ond anghyson yw gallu llawer o ddisgyblion ar draws gweddill yr ysgol i weithio'n annibynnol. Serch hynny, maent yn cadw ar dasgau yn dda am gyfnodau estynedig ac yn gwneud defnydd da o'u hamser.

Trefna'r disgyblion weithgareddau cyson i godi arian at achosion da o'u dewis hwy.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynllunio profiadau dysgu ysgogol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion. Yn y Cyfnod Sylfaen cynllunnir ar sail profiadau uniongyrchol y plentyn, ac yng nghyfnod allweddol 2 ceir cyd-gynllunio effeithiol ar themâu cytunedig. Ar y cyfan, mae cwricwlwm cyfnod allweddol 2 wedi ei gynllunio'n drwyadl ac yn adeiladu ar brofiadau blaenorol y disgyblion. Mae'r ymweliadau addysgol a'r amrywiaeth eang o gyfleoedd allgyrsiol yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn effeithiol. Fodd bynnag, ar adegau nid yw'r gweithgareddau a ddarperir yn llwyddo i ddatblygu'r disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol.

Trwy gynllunio bwriadus llwyddir i sicrhau fod medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth yn datblygu'n briodol ar draws y cwricwlwm. Mae'r arfer o dargedu grwpiau penodol o ddisgyblion ar gyfrer hybu sgiliau darllen wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau.

Mae'r ysgol yn datblygu Cymreictod y disgyblion mewn ffordd hollol naturiol a chynhwysol sy'n meithrin parch at yr iaith, eu hardal a'u thraddodiadau. Mae'r Cwricwlwm Cymreig wedi ei integreiddio'n llwyddiannus i bob agwedd o'r cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn rhan bwysig o gymuned y pentref gan gyfrannu'n gyson at gyngherddau, gwasanaethau ac eisteddfodau lleol.

Mae'r ysgol yn gweithredu arferion cynaliadwy da megis datblygu llecynnau natur ac ailgylchu deunyddiau. Mae gan aelodau'r Cyngor Eco yn arbennig ymrwymiad cadarn i'r agwedd hon. Mae'r disgyblion yn dangos empathi drwy gasglu arian tuag at achosion da dramor.

**Addysgu: Da**

Darperir cyfleoedd da i'r disgyblion arwain a chyfarwyddo'r dysgu. Mae hyn yn arwain at addysgu sy'n llwyddo i adeiladu ar gymhelliant a brwdfrydedd y dysgwyr. Mae rheolaeth dosbarth yn gyson gadarn drwy'r ysgol ac mae'r athrawon yn creu ethos cyfeillgar a gofalgar.

Lle mae addysgu da yn y Cyfnod Sylfaen mae gan yr athrawon ddealltwriaeth dda iawn o'r camau sy'n arwain at ddatblygu agweddau, medrau a gwybodaeth y plant ar draws pob maes dysgu. Llwyddir i feithrin annibyniaeth y disgyblion, holi a chwestiynu'n effeithiol a bwydo iaith yn gyson. Lle mae'r addysgu yn llai effeithiol mae'r tasgau'n gaeedig a chollir cyfle i ddatblygu sgiliau dysgu annibynnol yn effeithiol. Lle mae addysgu da yng nghyfnod allweddol 2 mae cyflymder bywiog i'r gwersi a disgwyliadau cyrhaeddiad uchel. Lle mae'r addysgu yn llai effeithiol nid oes adeiladu digonol ar brofiadau blaenorol ac nid yw'r'r tasgau'n ddigon ymestynnol ar gyfer y disgyblion mwyaf abl.

Mae’r athrawon yn rhoi adborth cyson i’r disgyblion, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Fodd bynnag, ni chynllunnir cyfnodau pwrpasol i’r disgyblion i weithredu ar yr adborth a roddir. Darperir cyfleoedd priodol i’r disgyblion i hunan asesu ac i asesu eu cyfoedion.

Mae gan bob disgybl dargedau gwelliant unigol. Llunnir y targedau hyn ar y cyd ac fe’i rhennir gyda’r rhieni. Daw’r disgyblion felly yn ymwybodol o’r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella safon eu gwaith.

Mae’r adroddiadau blynyddol ar gynnydd disgyblion yn fanwl ac yn rhoi darlun cynhwysfawr o gyrhaeddiad a chynnydd disgyblion. Rhoddir y cyfle i’r disgyblion hŷn gyfrannu at ei hadroddiadau gan gloriannu gwaith allgyrsiol y flwyddyn.

Gweithredir systemau olrhain cynnydd effeithiol a chynhwysfawr. Mae gwaith disgyblion diwedd cyfnod allweddol 2 yn cael ei gymedroli’n fewnol ac ar lefel clwstwr. Fodd bynnag, nid oes system gadarn mewn lle er mwyn cymedroli cyrhaeddiad disgyblion ar draws yr ysgol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r ysgol yn darparu gofal arbennig i bob un o’i disgyblion. Hyrwyddir ymddygiad da yn effeithiol gan gynllun ysgol gyfan sy’n pwysleisio’r cadarnhaol, gan ddefnydd helaeth o fyfyrdodau amser cylch, gan wersi addysg bersonol a chymdeithasol a chan adnoddau ffisegol megis ardal ymdawelu.

Cymera’r disgyblion ran amlwg a llwyddiannus mewn digwyddiadau cymdeithasol a diwylliannol yn lleol, sirol a chenedlaethol. Ar adeg yr arolygiad roedd disgyblion yn paratoi’n eiddgar at ymweliad yr Eisteddfod Genedlaethol â’r ardal yn haf 2011.

Mae’r disgyblion yn elwa o berthynas weithredol dda gyda nifer fawr o asiantaethau cefnogi, sy’n un o brif gryfderau’r ysgol. Cyfathrebir yn effeithiol â rhieni i ledaenu arferion addysgol da.

Mae gan y darparwr bolisi priodol ac mae ganddo weithdrefnau ar gyfer diogelu.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer anghenion addysguol arbennig o ansawdd uchel iawn ac yn hyrwyddo mynediad llawn i’r cwricwlwm ar gyfer pob disgybl. Mae’r ysgol yn flaenweithgar wrth adnabod anghenion y disgyblion yn gynnar iawn. Cynllunnir yr ymyrraeth gynnar yn ofalus a defnyddir system dracio fanwl er mwyn symud y dysgu yn ei flaen. O ganlyniad, mae cynnydd mesuradwy yn nghyraeddiad y disgyblion yma. Mae’r cynlluniau addysg unigol yn ddogfennau effeithiol iawn.

Ymatebir yn rhagorol i anghenion Anhwylderau Sbectrwm Awtistiaeth. Caiff arbenigedd yr ysgol ei gydnabod yn sirol a chenedlaethol a chynhaliodd tri aelod o staff yr ysgol weithdy cenedlaethol. Mae’r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol hefyd yn lledaenu arferion da mewn grŵp llywio ymyrraeth gynnar sirol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos yr ysgol yn gyfeillgar a chefnogol. Mae'n gymuned gynhwysol sy'n sicrhau cyfleoedd cyfartal i bob disgybl. Mae'r ysgol yn delio a chwynion mewn modd teg a sensitif.

Saif yr ysgol mewn adeilad newydd modern sy'n cynnwys dyfeisiau arbed ynni megis system gasglu ac ailgylchu dŵr glaw. Gwneir defnydd da o dir helaeth yr ysgol lle sefydlwyd ardaloedd natur a thŷ Celtaidd gyda chymorth grantiau a gwirfoddolwyr. Mae arddangosfeydd ac arteffactau lliwgar ac ysgogol ym mhob dosbarth ac mewn ardaloedd cyffredinol. Cedwir pob rhan o'r ysgol yn lân a thaclus. Yn gyffredinol mae adnoddau da i addysgu pob agwedd o'r cwricwlwm.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol ac mae'n llwyddo i gyfleu'r weledigaeth honno'n llwyddiannus i'r staff, y llywodraethwyr a'r disgyblion. Mae'n adnabod yr ysgol yn dda. Mewn ffordd ddidwyll a phroffesiynol, mae'n cynnig cyfeiriad strategol eglur i fywyd a gwaith yr ysgol, sy'n cael dylanwad cadarnhaol ar safonau a lles y disgyblion ar draws yr ysgol. Mae'r uwch dîm rheoli a'r Llywodraethwyr yn cydweithio mewn partneriaeth gyda'r pennaeth i wireddu ei weledigaeth.

Sefydlwyd Uwch Dîm Rheoli yn ddiweddar. Hyd yma, nid yw'r strwythur hwn na rôl y dirprwy wedi eu ffurfioli'n ddigonol i effeithio'r broses o sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth ar draws y dosbarthiadau.

Mae gan yr ysgol ystod eang o bolisïau rheolaethol a chwricwlaidd sy'n cael eu gweithredu'n effeithiol. Yn ddiweddar, lluniwyd disgrifiadau swyddi clir sy'n cynnig sylfaen i hybu cysondeb i'r dyfodol.

Mae'r corff llywodraethol yn cyflawni ei rolau statudol yn effeithiol. Mae gan ei aelodau ymwybyddiaeth dda o berfformiad cyfredol yr ysgol ac maent yn herio a chwestiynu perfformiad yr ysgol yn gydwybodol. Mae'r llywodraethwyr yn ymweld â dosbarthiadau yn rheolaidd. Mae'r ymweliadau hyn yn fodd iddynt gynnig cefnogaeth lwyddiannus i'r ysgol wrth gynllunio'n strategol.

Llwydda'r ysgol i dalu sylw dyledus i nifer o flaenoriaethau cyfredol. Mae'n gweithio'n dderbyniol tuag at sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, sgiliau meddwl ac asesu ar gyfer dysgu.

Mae'r ysgol hefyd wedi ymrwymo i safonau achrediadau'r Ysgol Iach ac Ysgol Eco er mwyn hybu iechyd a ffitrwydd disgyblion a'u parch tuag at yr amgylchfyd. Mae'r ysgol hefyd yn datblygu'r sylw a roddir i lais y dysgwr ymhob elfen o fywyd yr ysgol.

**Gwella ansawdd:  Da**

Mae’r broses hunan arfarnu yn adnabod yn glir y mwyafrif o’r meysydd i’w datblygu o fewn yr ysgol.  Mae trefn yr ysgol o hunan arfarnu yn cynnwys trafodaethau staff mewn cyfarfodydd penodol.  Mae’r ysgol yn cynnwys barn llywodraethwyr, rhieni a disgyblion yn effeithiol o fewn ei threfniadau hunan arfarnu.

Mae deilliannau’r broses hunan arfarnu yn dylanwadu'n briodol ar flaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol.  Mae’r cynllun o ansawdd da, ac wedi ei seilio ar arfarniad o’r cynllun blaenorol a’r blaenoriaethau a ddaeth i’r amlwg o fewn y broses hunan arfarnu.  Mae’r blaenoriaethau’n glir ac mae deilliannau llwyddiant a’r effaith ar safonau wedi eu disgrifio’n fanwl.

Mae athrawon y Cyfnod Sylfaen ynghyd a’r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn gweithio’n dda fel tîm ac o fewn rhwydweithiau sirol.  Nid yw’r arfer hwn yn datblygu cystal yng nghyfnod allweddol 2.  Yn fewnol, mae’r ysgol yn cynnal cyfarfodydd adrannol i gynllunio’r cwricwlwm ac i rannu arferion addysgu diweddaraf megis datblygu medrau meddwl, asesu ar gyfer dysgu a thracio cynnydd disgyblion.

Mae’r sustem rheoli perfformiad staff yn ei le ac yn sylfaen dda i wella unigolion o fewn cyd-destun yr ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae’r ysgol wedi meithrin ystod o bartneriaethau strategol defnyddiol.

Mae perthynas gref yn bodoli gyda’r rhieni ac maent yn cefnogi datblygiadau megis man chwarae ar y buarth, tŷ Celtaidd a phrosiect celf.

Mae’r ysgol yn gweithio’n agos gydag ysgolion Gymraeg yr ardal ar brosiectau amrywiol, a chynnal hyfforddiant ar y cyd.  Mae partneriaethau agos ac effeithiol yn bodoli rhwng y sefydliadau meithrin a leolir ar gampws yr ysgol.  Mae’r trefniadau trosglwyddo o’r meithrin i’r Cyfnod Sylfaen ac o gyfnod allweddol 2 i’r ysgol uwchradd yn effeithiol a chynhwysol.

Mae’r ysgol wedi adeiladu partneriaethau da gydag ystod eang o gyrff cyhoeddus a masnachol sy’n cynnwys siopau a chwmnïau lleol ac asiantaethau megis Cwmni Bywyd Gwyllt Gogledd Ddwyrain Cymru.  Mae cynrychiolwyr o’r gwasanaethau argyfwng yn ymweld â’r ysgol yn rheolaidd i roi hyfforddiant a phrofiadau priodol.

Mae’r cysylltiadau clos sy’n bodoli gyda’r gymuned leol, yn dylanwadu’n gadarnhaol ar ansawdd yr addysg.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae’r ysgol yn rheoli ei hadnoddau’n effeithiol ar y cyfan.

Yn gyffredinol, mae’r staff yn creu amgylchedd cyffrous a deniadol i’r disgyblion. Mae’r defnydd a wneir o’r cymorthyddion yn ychwanegu at y profiadau a chefnogaeth ar gyfer disgyblion o fewn bron bob dosbarth.

Darpara'r ysgol raglen o hyfforddiant cwricwlaidd addas i'r staff dysgu a chefnogi. Fod bynnag, hyd yma nid yw'r ysgol yn darparu hyfforddiant priodol ar gyfer datblygu sgiliau arweinyddol y tîm rheoli newydd.

Ar y cyfan, mae'r athrawon yn defnyddio eu hamser cynllunio, paratoi ac asesu'n effeithiol.

Gan fod y disgyblion yn cyrraedd safonau da a fod yr ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

O fewn bob un o'r holiaduron a dderbyniwyd gan y rhieni maent yn datgan eu bod yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol, fod eu plant yn hoffi'r ysgol, yn hapus yno ac yn teimlo'n ddiogel. Credant hefyd fod ymddygiad y disgyblion yn dda.

Mae'r rhieni oll o'r farn fod yr athrawon yn gweithio'n effeithiol ac yn annog y plant i weithio'n galed. Maent yn hapus â'r cynnydd wna'r disgyblion a'r amrywiaeth sydd mewn gweithgareddau a gynigir iddynt.

Mae bron bob un yn hapus hefo'r wybodaeth a dderbyniant am gynnydd y disgyblion a'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â dod i'r ysgol i ymholi am wybodaeth. Teimlant fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Cwblhaodd 90 o ddysgwyr cyfnod allweddol 2 yr holiadur a siaradodd y tîm â'r disgyblion yn ystod yr arolygiad. Mae'r dysgwyr oll yn datgan eu bod yn hapus, yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a'u bod yn gwybod pwy y gallant siarad â nhw os ydynt yn poeni.

Dywedant fod yr athrawon yn eu haddysgu'n effeithiol am bwysigrwydd gwybod sut i fod yn iach ac ymarfer corff yn rheolaidd.

Oddeutu 60% yn unig o ddisgyblion ymatebodd drwy'r holiadur fod ymddygiad yn dda o fewn yr ysgol ac nad oes camymddwyn yn effeithio ar eu gallu i weithio. Nid dyma ganfyddiad y tîm arolygu o fod yn arsylwi o fewn dosbarthiadau ac o ganlyniad i holi dysgwyr wyneb yn wyneb.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Glyn Roberts | Arolygydd Cofnodol |
| Prydwen Elfed Owens | Arolygydd Tîm |
| John Roberts | Arolygydd Lleyg |
| Robert Huw Jenkins | Arolygydd Cymheiriaid |
| Dafydd Rhys (Pennaeth) | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |